**<u>Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru</u>**
**Microsoft Teams**
**Dydd Iau 24 Hydref 2024 11:00 – 13:00**

## <u>Cofnodion</u>

## <u>Yn bresennol</u>

| | |
|---|---|
| Jane Hutt AS | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (Cadeirydd) |
| Y Fonesig Nia Griffith | Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru |
| Dr. Richard Lewis | Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys |
| Mark Hobrough | Prif Gwnstabl Dros Dro Heddlu Gwent |
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Amanda Blakeman | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Andy Dunbobbin | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Emma Wools | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Liz Lalley | Cyfarwyddwr Risg, Cadernid a Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Mike Connolly | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Emma Watkins | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth yn Nhrysorlys Cymru |
| James Gerard | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Alison Thomas | Pennaeth Newid Ymddygiad o ran Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru |
| Claire Russell-Griffiths | Uwch-reolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Leanne Lewis | Rheolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Grant Oliver | Tîm Cymru a Lloegr, Tiriogaethau Domestig a Thramor y DU, y Swyddfa Gartref |
| Helen Evans | Dirprwy Gyfarwyddwr, Cenhadaeth Strydoedd Mwy Diogel, y Swyddfa Gartref |
| Gregg Dyer | Pennaeth Materion Domestig, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Ian Barrow | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Mark Brace | Pennaeth y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLlLC |
| Carys Morgans | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Sian Curley | Prif Weithredwr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Lee Jones | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Stephen Hughes | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Umar Hussain | Prif Swyddog Ariannol, Heddlu De Cymru |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Paul Biggs | Prif Arolygydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Laura Armitt | Cydlynydd Busnes Cymru Gyfan, Plismona yng Nghymru |
| Wayne Jones | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Joanna Huddleston | Gweinyddydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |

<u>Ymddiheuriadau</u>

| | |
|---|---|
| Julie James AS | Cwnsler Cyffredinol Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Jane Mudd | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Hannah Scarr | Dirprwy Gyfarwyddwr Tiriogaethau Domestig a Thramor y DU, Cyfandiroedd America ac Uned 5EYEs |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLlLC |
| Chris Llewelyn | Prif Weithredwr CLlLC |
| Judith Paget | Cyfarwyddwr Cyffredinol HSSG, Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Amy Rees | Prif Weithredwr, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Tracy Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

| Camau gweithredu yn codi o'r cyfarfod | |
|---|---|
| Paul Morris i ddiwygio Cylch Gorchwyl Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd yn y cyfarfod. | Paul Morris |
| Y Prif Gwnstabl Vaughan i gydlynu adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru mewn perthynas â materion sy'n debygol o greu pwysau i Plismona yng Nghymru. | Y Prif Gwnstabl Vaughan |
| Caiff cyfarfod rhwng Plismona yng Nghymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru ei gynnal ar 26 Tachwedd 2024 | Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Caiff y Gweinidog Gwladol dros Droseddu, Plismona a Thân ei wahodd i'r cyfarfod nesaf | Uned Gyswllt yr Heddlu |

## 1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

Agorodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip y cyfarfod drwy groesawu'r Fonesig Nia Griffith a Swyddogion y Swyddfa Gartref ac ychwanegodd ei bod yn gobeithio gwahodd y Gweinidog Plismona, y Fonesig Diana Johnson i'r cyfarfod nesaf er mwyn cynnig cyfle i ymgysylltu.

Nododd y Cadeirydd y bu llawer o newidiadau ers y cyfarfod diwethaf ar 7 Mawrth 2024 yn ogystal ag etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Gwnaeth y Cadeirydd longyfarch y Comisiynydd Wools fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu newydd De Cymru a'r Comisiynydd Mudd fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu newydd Gwent, yn ogystal â'r Comisiynydd Dunbobbin a'r Comisiynydd Llywelyn ar gael eu hailethol, a nododd hefyd fod Eluned Morgan wedi cael ei phenodi'n Brif Weinidog Cymru ers y cyfarfod diwethaf.

Gwnaeth Jane Hutt AS gydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod â Plismona yng Nghymru yn ystod y cyfnod gyda'r nod o gryfhau'r gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Plismona yng Nghymru. Fel rhan o hyn, cytunwyd y dylid ailwampio Cylch Gorchwyl Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau cyffredin yn ogystal â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng Llywodraeth Cymru a Plismona yng Nghymru.

Gwnaeth y Cadeirydd wahodd sylwadau gan y Fonesig Nia Griffith a oedd yn bresennol ar ran Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Diolchodd y Fonesig Nia Griffith am y gwahoddiad a chyfeiriodd at Genhadaeth Strydoedd Mwy Diogel Llywodraeth y DU, gan nodi na fyddai'r gwaith hwn yn bosibl heb gymorth ar y cyd ac ychwanegodd ei bod yn awyddus i ddechrau gweithio ar hyn. Diolchodd i Swyddogion yr Heddlu am y gwaith y maent yn ei wneud bob dydd i gadw cymunedau'n ddiogel a thynnodd sylw at waith heddlu Dyfed Powys mewn perthynas â'r digwyddiad yn Llanbrynmair.

## 2. Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru – Ffordd Newydd o Weithio

Esboniodd Paul Morris y rhesymeg y tu ôl i ddiwygio Cylch Gorchwyl Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, fel y disgrifiwyd yn sylwadau agoriadol y Cadeirydd, gan ychwanegu nad oedd hyn wedi cael ei wneud ers peth amser yn dilyn gwaith ymgysylltu rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru ac Uwch-arweinwyr o Plismona yng Nghymru. Esboniodd mai'r nod oedd sicrhau bod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn canolbwyntio ar ddatrys problemau a chyflawni a datblygu camau gweithredu y gellir ymrwymo iddynt ar y cyd, yn hytrach na fforwm ar gyfer darparu diweddariadau.

Gellir crynhoi'r Cylch Gorchwyl i bum diben allweddol, sef:

- Gweithio mewn Partneriaeth
- Ystyried dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar atebion
- Dealltwriaeth glir o flaenoriaethau perthnasol aelodau gwahanol Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru
- Nodi risgiau a phroblemau yn gynnar

- Ystyried rhaglenni deddfwriaethol perthnasol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac ymdrin â nhw

Pwysleisiodd Paul Morris ei bod yn bwysig cydnabod nad yw'r Cylch Gorchwyl yn gwrthdaro â Dyletswyddau Statudol, Mandadau Etholedig nac Annibyniaeth Weithredol Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu na Phrif Gwnstabliaid.

Aeth ymlaen i ddweud, os bydd aelodau Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn cytuno ar y Cylch Gorchwyl, y camau nesaf fydd datblygu Blaenraglen Waith i Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru weithio tuag ati, gan bwysleisio y byddai hyn yn parhau i ganiatáu amser i faterion sy'n dod i'r amlwg a risgiau presennol gael eu hystyried gan y Bwrdd a dywedodd ei fod yn gobeithio cyflwyno hyn yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2024.

**2.1.** Nododd y Fonesig Griffith ei bod yn teimlo bod y frawddeg agoriadol ynghylch darparu pont rhwng Plismona yng Nghymru a'r ystod lawn o bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus datganoledig a heb eu datganoli yn briodol ond mai'r materion datganoledig a heb eu datganoli sy'n cael eu crybwyll yn y rhan fwyaf o'r papur. Fodd bynnag, ni chaiff y rhain eu crybwyll o dan eitem 1 felly gofynnodd a ellid diwygio hyn er mwyn cynnwys Llywodraeth y DU a gwasanaethau. Nododd fod ganddi fersiwn ddrafft fras o ddiwygiad os byddai hynny'n ddefnyddiol.

**2.2.** Roedd y Comisiynydd Llywelyn yn cytuno â phwynt y Fonesig Griffith, gan nodi ei fod yn teimlo ei bod yn gadarnhaol bod Llywodraeth y DU yn bresennol ar gyfer y drafodaeth gan fod Plismona yng Nghymru mewn sefyllfa unigryw gan ei fod yn gorfod gweithio rhwng sefydliadau datganoledig a heb eu datganoli, ond mae o'r farn nad yw'n agwedd gadarnhaol bob amser, fel y nodwyd yn y cyfarfod ar 7 Mawrth 2024 mewn perthynas â materion ynghylch ffrydiau cyllido a chanlyniadau Barnett ac ati. Ychwanegodd ei fod am gofnodi ei ddiolch i Mike Connolly a Liz Lalley am eu cymorth yng nghyfarfodydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu bob pythefnos gan fod y Comisiynwyr yn gwerthfawrogi'r trefniant a'r cyfle i gysylltu'n uniongyrchol â Gweinidogion, sy'n galluogi Plismona yng Nghymru i sicrhau bod y safbwynt o ran Plismona a Chyfiawnder Troseddol yn ehangach yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru er mwyn ei drafod a gyda nod y Flaenraglen Waith i ganolbwyntio ar atebion a darparu gwasanaethau yn cysylltu ag amcanion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

**2.3.** Diolchodd y Prif Gwnstabl Blakeman i'r Fonesig Griffith am ei hawgrym a chytunodd y byddai'n ddefnyddiol bwrw golwg dros ei geiriad oherwydd ei fod yn gweithio rhwng y ddwy Lywodraeth yn weithredol, gyda mandad a chyfarwyddyd clir gan Lywodraeth y DU. Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn awyddus i wneud cynnydd mewn meysydd gyda Llywodraeth Cymru, felly byddai'n ddefnyddiol diwygio'r geiriad yn hyn o beth i sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo'n ddidrafferth er mwyn cyflawni'r gorau i gymunedau ledled Cymru gyda'r cyllid a'r cyfarwyddiadau sydd gan heddluoedd gan bartïon datganoledig a heb eu datganoli.

**2.4.** Holodd Joanne Hopkins a ddylid cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru yng Nghylch Gorchwyl Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru o ystyried y cytundeb partneriaeth ynghylch defnyddio dull iechyd y cyhoedd o ymdrin ag agweddau niferus ar Gyfiawnder Troseddol a Phlismona. Cytunwyd mai camgymeriad oedd hyn ac y byddai'n cael ei gywiro mewn dogfen ddiwygiedig.

**2.5.** Cydnabu'r Cadeirydd ei bod yn ddefnyddiol cael y cyfraniadau hyn gan fod hyn yn cynnig cyfle i'w hadolygu, ond cytunodd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhan hanfodol o Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Rhoddodd sicrwydd mai dim ond addasiadau terfynol sydd eu hangen cyn cyflwyno gerbron Cabinet Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rhannu hyn â'r Fonesig Griffith.

**Cam Gweithredu: Paul Morris i ddiwygio Cylch Gorchwyl Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd yn y cyfarfod.**

### 3. Datblygiad Cyllideb 2025/26: Pwysau a Blaenoriaethau sy'n dod i'r Amlwg

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem a nododd y bydd Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth yn Nhrysorlys Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am broses Llywodraeth Cymru yn nes ymlaen yn yr eitem.

**3.1.** Esboniodd y Comisiynydd Llywelyn fod gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gyfrifoldeb dros gyllid o safbwynt plismona ac mae'n ymwybodol nad yw'r gyllideb wedi cael ei chyhoeddi eto. Fodd bynnag, nododd fod ganddo ddogfen â chyllideb refeniw arfaethedig Heddlu Dyfed Powys ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae bylchau sylweddol yn y cynigion cyllid ond nododd fod angen deall pwysigrwydd buddsoddiad a sefyllfa Llywodraeth Cymru hefyd er mwyn i heddluoedd gynnwys y rheini wrth gynllunio cyn y penderfynir ar y Praesept ym mis Ionawr 2025. Byddai unrhyw wybodaeth o ran safbwyntiau Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas ag eitem GanBwyll ar yr agenda, yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr.

**3.2.** Nododd y Prif Gwnstabl Blakeman fod llawer o ymrwymiadau wedi cael eu gwneud mewn perthynas â'r ffordd ymlaen gan Lywodraeth y DU, megis 13,000 o Swyddogion newydd yr Heddlu, ond nid yw'r cyllid wedi cael ei gadarnhau eto. Mae'n ymddangos bod llawer o ymrwymiadau yng nghyhoeddiadau Llywodraeth y DU sy'n cynnwys Cenhadaeth Strydoedd Mwy Diogel, Gwarant Plismona yn y Gymdogaeth, haneru Trais yn erbyn Menywod a Merched yn ogystal â Dyfarniadau Cyflog heb eu hariannu y mae angen i heddluoedd eu cynnwys yn eu cyllidebau. Mae Heddluoedd Cymru yn parhau i weithio drwy'r penderfyniad i roi'r gorau i ariannu Rhaglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru a llai o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, y mae llawer ohonynt yn hanfodol i rai o'r materion a amlinellwyd yn flaenorol. Mae hyn yn ogystal â phwysau cyfalaf heb eu hariannu ac mae llawer o heddluoedd yn ystyried benthyca, felly mae heddluoedd nawr mewn sefyllfa o geisio cydbwyso'r hyn y gallant fforddio ei gyflawni a sut y gallant ei fforddio a lle gallant flaenoriaethu, megis GanBwyll a gaiff ei drafod yn nes ymlaen yn y cyfarfod.

**3.3.** Cydnabu'r Cadeirydd fod Llywodraeth Cymru a Plismona yng Nghymru yn aros am y cyhoeddiad ynghylch y gyllideb. Ymrwymiadau maniffesto yw'r materion a grybwyllwyd gan y Prif Gwnstabl Blakeman felly nid yw'r cyllid wedi cael ei gadarnhau eto, ond cydnabyddir ein bod mewn cyfnod heriol a bod problemau i Lywodraeth Cymru o ran GanBwyll, y Rhaglen Ysgolion a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a myfyriwyd ar waith partneriaeth yng Nghymru.

**3.4.** Disgrifiodd Emma Watkins y sefyllfa o ran paratoi ar gyfer cyhoeddi'r gyllideb, gan esbonio na fyddai'n sôn yn fanwl am y cyd-destun ariannol ac economaidd ond pwysleisiodd fod pethau'n heriol iawn ac, o ganlyniad, fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ragdybiaethau cynllunio negyddol ar gyfer cyllid refeniw ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyllideb flynyddol ddrafft ar gyfer blwyddyn ar 10 Rhagfyr gan y bydd setliad blwyddyn gan Lywodraeth y DU ar 30 Hydref. Fodd bynnag, disgwylir i Lywodraeth y DU gwblhau ail gam ei hadolygiad gwariant ym mis Mawrth 2025 ac, ar y pwynt hwnnw, mae'n debygol y bydd gan Lywodraeth Cymru setliad dwy flynedd ar gyfer refeniw yn ogystal â setliad 3-4 blynedd ar gyfer cyfalaf. Bydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ystyried setliadau aml-flwyddyn y gwyddys eu bod yn bwysig i bartneriaid yng Nghymru.

Esboniodd fod gwaith ymgysylltu wedi mynd rhagddo ar lefel drawslywodraethol a bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi cyfarfod â phartneriaid trydydd sector a Llywodraeth leol ac ati, y mae pob un ohonynt yn mynegi pryderon ynghylch y pwysau y maent yn eu hwynebu.

**3.5.** Diolchodd y Comisiynydd Llywelyn i Emma am ei mewnbwn a holodd a oes ffordd well i Plismona yng Nghymru gefnogi Llywodraeth Cymru gyda'r gwaith hwnnw er mwyn sicrhau bod plismona yn cael llais, a rhoddodd yr enghraifft fod GanBwyll yn cyd-fynd â phortffolio Ken Skates ond bod meysydd cyllid eraill yn debygol o gyd-fynd â phortffolios Gweinidogion eraill.

**3.6.** Ymatebodd y Cadeirydd i ddweud, fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, ei bod yn ystyried bod y cyfarfod hwn yn gyfle gan ei bod yn gweithio'n agos gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid. Bydd yn rhannu'r pwyntiau trafod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn ogystal ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru.

**3.7.** Atgyfnerthodd y Prif Gwnstabl Vaughan bwynt y Comisiynydd Llywelyn, gan ychwanegu bod agweddau penodol y mae Plismona yng Nghymru wrthi'n eu rhoi ar waith, megis Gofal Cywir Person Cywir. Fel y cyfryw, mae plismona yn gweithio tuag at beidio â bod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pobl mewn argyfwng iechyd meddwl, na darparu trafnidiaeth mewn achosion o'r fath. Fodd bynnag, er bod y trafodaethau hyn wedi bod yn mynd rhagddynt ers dros flwyddyn mewn fforymau eraill, mae'n credu nad yw bob amser yn glir bod Byrddau iechyd yn ymwybodol o'r goblygiadau posibl, megis eu trefniadau trafnidiaeth. Holodd a fyddai'n bosibl cyflwyno adroddiad ar wahân i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â materion y mae Plismona yng Nghymru yn rhagweld eu bod yn debygol o roi pwysau ar Heddluoedd Cymru.
**Cam Gweithredu: Y Prif Gwnstabl Vaughan i gydlynu adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru mewn perthynas â materion sy'n debygol o greu pwysau i Plismona yng Nghymru.**

**3.8.** Cydnabu'r Cadeirydd y bydd heddluoedd dan amrywiaeth o bwysau cyllidebol a chytunodd y byddai'n ddefnyddiol datblygu'r adroddiad; fel y crybwyllwyd yn flaenorol, byddai Liz Lalley a Mike Connolly yn fodlon cyfrannu at hyn ond atgyfnerthodd y pwynt eu bod yn dal i aros am y cyhoeddiad ynghylch y gyllideb gan Lywodraeth y DU. Mewn perthynas â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ychwanegodd ei fod yn fenter y mae Llywodraeth Cymru wedi'i hariannu ers blynyddoedd lawer a'i bod yn anodd o ran cyllideb eleni, ond mae'r llythyrau cynnig grant ynghylch cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu bellach wedi cael eu hanfon. Pwysleisiodd eto ei bod yn ddiolchgar am y cydweithio adeiladol a gafwyd, ond nododd fod Llywodraeth Cymru yn darparu dros £15m ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Gorffennodd drwy nodi y bydd Emma Watkins yn rhannu'r wybodaeth hon ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.

## 4. Sefyllfa Ariannol Partneriaeth Lleihau Anafiadau GanBwyll: Diweddariad

Cyflwynodd y Comisiynydd Llywelyn yr eitem a chyfeiriodd at gofnodion y cyfarfod blaenorol lle tynnodd sylw at y broblem gyda chyllid GanBwyll a phwysleisiodd bod y rhaglen wedi bod yn cael ei rhedeg ar ddiffyg ers sawl blwyddyn.

**4.1.** Esboniodd Mr Hussain, fel y crybwyllwyd yn flaenorol, fod heriau ariannol GanBwyll wedi cael eu nodi beth amser yn ôl ond bod gwaith wedi cael ei wneud i geisio canfod yr achosion sylfaenol. Nododd fod y chwe blynedd diwethaf o ddata ynghylch marwolaethau ac anafiadau difrifol o ganlyniad i wrthdrawiadau yn ymwneud â chyflymder ledled Cymru wedi cael eu hadolygu. Dywedodd fod 100 o farwolaethau ar ffyrdd Cymru bob blwyddyn ar gyfartaledd a thros 1,000 o wrthdrawiadau sy'n newid bywyd yn effeithio ar unigolion oherwydd digwyddiadau sy'n ymwneud â chyflymder; mae 75% o'r gwrthdrawiadau yn digwydd ar ffyrdd 60mya a 30mya, ac mae ffyrdd 30mya yn cyfrif am 51% o'r marwolaethau a'r anafiadau difrifol ar draws yr holl ffyrdd yng Nghymru sy'n golygu na fyddai'n bosibl i'r isadeiledd camerâu sefydlog gyflawni'r camau gweithredu hynny. O ganlyniad, mae'r dulliau gorfodi symudol yn rhan hanfodol o'r ffordd y mae plismona yn gorfodi ledled Cymru, gyda thros 53,000 o droseddau yn cael eu canfod drwy ddulliau gorfodi symudol dros y 12 mis diwethaf yn ogystal â mynd i'r afael â thorri rheolau yn ymwneud â gwregysau diogelwch a ffonau symudol.

Nododd effaith gadarnhaol partneriaeth GanBwyll a gaiff ei hatgyfnerthu gan astudiaeth annibynnol gan y Coleg Plismona sy'n nodi bod gorfodi yn lleihau troseddau dros 52%. Cyfeiriodd Mr Hussain at yr Astudiaeth Baich Anafiadau sydd wedi dangos bod cost gyfartalog gwrthdrawiad angheuol yn £2m sy'n dangos y gwerth a geir drwy drefniadau gorfodi effeithiol. Damweiniau Traffig Ffyrdd yw achos mwyaf anafiadau

difrifol i blant hefyd gan fod 51% o anafiadau yn digwydd ar ffyrdd 30mya a byddai gorfodi yn cael effaith uniongyrchol ar ddiogelwch plant ar ffyrdd yng Nghymru.

O ran incwm ar gyfer GanBwyll, yn y lle cyntaf cafodd ei hariannu gan Lywodraeth Cymru yn bennaf gan fod gan Lywodraeth Cymru Gyfrifoldeb Statudol dros Ddiogelwch Ffyrdd yng Nghymru, ac yna arweiniodd cyllid ROEd y DU at ffi atgyfeirio am bob trosedd sy'n addas ar gyfer addysg i yrwyr. Mae hyn wedi cynnal sefyllfa gytbwys y bartneriaeth ond gan fod y ffi atgyfeirio yn swm sefydlog, ac wedi bod felly ers 2019, nid yw gorfodi ar ei ben ei hun wedi bod yn ddigon oherwydd bod chwyddiant yn effeithio ar gyflogau, nwyddau a gwasanaethau ac ati, a'r setliad arian gwastad gan y ddwy brif ffynhonnell o incwm, ond yn 2023/2024, oherwydd y diffyg cronfeydd wrth gefn, bu'n rhaid i Plismona yng Nghymru ddefnyddio ei gyllid ei hun i sicrhau bod y sefyllfa'n gytbwys. Nododd ymhellach fod bwlch cyllido sylweddol iawn ar gyfer 2024/2025.

Nodwyd nifer o opsiynau i geisio mynd i'r afael â'r bwlch:
• Cynyddu gweithgarwch gorfodi, ond mae gan hyn ddeddf adenillion lleihaol; mae gwaith gwerthuso wedi canfod drwy arbedion effeithlonrwydd, botensial i gynyddu troseddau o 154,000 i 180,0000 y flwyddyn yn ogystal â cheisio mewnoli Cyrsiau Addysg Gyrwyr i Gymru.
• Cynnydd mewn cyllid grant
• Rhagor o gyllid gan bob partner
• Nododd Llywodraeth Cymru y cyfle i ystyried y posibilrwydd o neilltuo Refeniw Cosbau Penodedig gan y Trysorlys. Mae Plismona yng Nghymru yn cyfrannu £3.7m y flwyddyn at y Trysorlys drwy weithgarwch gan GanBwyll felly mae cyfle i negodi a fyddai'n bosibl i rywfaint o'r swm hwnnw gael ei ddychwelyd.
• Lleihau costau drwy fod yn fwy effeithlon yn y dyfodol, neu gyfuniad o bob opsiwn; ond mae'n credu drwy dechnoleg well, arbedion effeithlonrwydd ac awtomeiddio rhai prosesau, gellid gweithio tuag at leihau costau £0.5m, ond byddai angen buddsoddiad cychwynnol er mwyn gwneud hyn.

Crynhodd Mr Hussain drwy nodi bod diffyg o £44m dros y 10 mlynedd nesaf; byddai parhau gyda'r opsiynau a amlinellwyd, megis mwy o weithgarwch, yn cyfrannu £5m, byddai rhagor o gyllid gan blismona yn cyfrannu £30m, a byddai mesurau lleihau costau yn lleihau'r swm £4m. Drwy rai mesurau gweithredol o ochr gorfodi plismona, gellid canfod tua £22m er mwyn gwneud yr uned yn gynaliadwy, ond byddai angen cyfraniad gan Lywodraeth Cymru o hyd. Fodd bynnag, os na chytunir ar hyn, mae partneriaeth GanBwyll yn wynebu risg felly byddai angen i Lywodraeth Cymru fod yn rhan o'r gwaith o chwilio am opsiynau amgen gyda Plismona yng Nghymru pe na bai'r bartneriaeth yn bodoli mwyach, ond byddai Plismona yng Nghymru yn croesawu trafodaethau gyda Thrysorlys Llywodraeth Cymru.

**4.2.** Diolchodd y Cadeirydd i Mr Hussain a nododd ei bod yn credu bod Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael y cyflwyniad yn gynharach ym mis Hydref, felly maent yn ymwybodol iawn o hyn. Nododd ei bod yn ymwybodol bod cyfarfod wedi cael ei drefnu rhwng GanBwyll ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid ar 26 Tachwedd 2024.

**4.3.** Dywedodd y Comisiynydd Llywelyn y byddai'n dosbarthu papur briffio gan Dŷ'r Cyffredin gan ei fod yn teimlo ei fod yn rhoi crynodeb da o'r holl faterion mewn perthynas â Diogelwch ar y Ffyrdd a'r ddarpariaeth drwy fenter megis partneriaeth GanBwyll. Fel y nododd Mr Hussain, mae gan Lywodraeth Cymru Gyfrifoldeb Statudol felly holodd a oes angen trafodaeth â Thrysorlys Llywodraeth y DU mewn perthynas â neilltuo cyllid drwy safbwynt canlyniadol Barnett o ran cyfran o'r boblogaeth oherwydd bu newidiadau o ganlyniad i Ddeddf yr Heddlu, Troseddu a Dedfrydu 2022 hefyd ynghylch sut y gellir defnyddio'r cyllid, gan gynnwys mentrau i leihau cyflymder a mentrau Diogelwch ar y Ffyrdd.

**4.4.** Dywedodd y Prif Gwnstabl Blakeman y byddai'n croesawu trafodaeth gynharach gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru gan fod hon yn sefyllfa hollbwysig o ystyried bod Plismona yng Nghymru wedi cyfrannu eleni ond ni fydd yn gallu gwneud yr un peth y flwyddyn nesaf. Mynegodd ei siom gyda'r trafodaethau â Swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn hyd yn hyn gan nad yw

wedi cael unrhyw sicrwydd y bydd y sefyllfa'n newid o ran arian gwastad sy'n achosi cryn bryder. Mae rhoi'r terfyn cyflymder 20mya wedi gwneud y sefyllfa'n waeth oherwydd yr adolygiadau dilynol sydd wedi golygu nad yw'r heddlu wedi gallu cymryd camau gorfodi ac mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar y gyllideb a ragwelwyd.

**4.5.** Cadarnhaodd Alison Thomas ei bod wedi gweld fersiwn o'r cyflwyniad yr wythnos flaenorol felly mae ganddynt ragor o wybodaeth, ond bydd yn cymryd peth amser i fynd drwy'r wybodaeth a'i defnyddio i lunio rhyw fath o gyngor oherwydd yr opsiynau gwahanol ar gyfer y cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, felly awgrymodd y dylid parhau i gynnal y cyfarfod ar 26 Tachwedd 2024.

## 5. Cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Plismona a Chyfiawnder Troseddol – Effeithiau Posibl ar Wasanaethau Datganoledig

**5.1.** Dywedodd y Comisiynydd Llywelyn ei fod yn credu y trafodwyd hyn yn gynharach yn y cyfarfod ond ychwanegodd ei fod yn teimlo bod Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu wedi bod yn fwy agored wrth rannu ei farn â'r Swyddfa Gartref ynglŷn â phlismona a'r ffordd y mae agenda diwygio'r heddlu yn cael ei datblygu. Ychwanegodd y bydd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu hefyd yn rhannu ei barn â'r Swyddfa Gartref a'i fod yn awyddus i weld y manylion, megis sut y caiff ei ddarparu a'r cyllid.

**5.2.** Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Blakeman fod trafodaethau wedi cael eu cynnal yng Nghyngor y Prif Gwnstabliaid ac mewn heddluoedd unigol wrth iddynt ystyried y manylion er mwyn gweld sut y gall heddluoedd gyflawni materion sy'n ymddangos mewn cynlluniau plismona. Fodd bynnag, maent yn ymwybodol bod pwysau, yn enwedig mewn perthynas â chyllid grant, megis yr uchelgais i haneru nifer y troseddau trais yn erbyn menywod a merched a'r gofyniad i gael Arbenigwyr Trais Domestig mewn ystafelloedd rheoli, ond maent yn aros am fanylion ar hyn o bryd.

**5.3.** Cydnabu Helen Evans yr angen i bennu pa adnoddau fydd ar gael i heddluoedd, gan ychwanegu mai nod y genhadaeth yw ysgogi camau i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol ym mhob rhan o'r system. Nododd fod yr Uwch-swyddog Cyfrifol, Richard Clarke, yn awyddus i ymgysylltu'n uniongyrchol ag awdurdodau datganoledig er mwyn deall y sefyllfa yng Nghymru, yn enwedig gan fod y canlyniadau hyn yn dibynnu ar Wasanaethau Cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd, megis haneru troseddau'n ymwneud â chyllyll; ni fydd hyn yn bosibl drwy orchymyn a rheoli'n unig, bydd angen addysg a gwaith ataliol hefyd.

**5.4.** Ategodd y Cadeirydd bwynt y Prif Gwnstabl Blakeman ac mae'n awyddus i ymgysylltu gan fod Cymru ar gam pellach o ran cyflawni rhai elfennau o'r genhadaeth i fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched, ond rydym am ymgysylltu a bod yn rhan o'r broses o gyflawni'r genhadaeth.

**5.5.** Nododd y Comisiynydd Wools ei bod yn galonogol gwybod bod Llywodraeth y DU yn rhoi dull gweithredu system gyfan ar waith a bod y cyd-destun penodol yng Nghymru yn cael ei ystyried gan fod galw ar bob gwasanaeth, fel y nododd y Prif Gwnstabl Blakeman. Awgrymodd y Comisiynydd Wools, os yw'n bosibl, y byddai'n fuddiol i Swyddogion ymweld â Chymru er mwyn cael dealltwriaeth o'r dull gweithredu system gyfan sydd wedi bod ar waith yng Nghymru ers peth amser.

**5.6.** Holodd y Prif Gwnstabl Lewis a oes mwy o gydweithio rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ac a ellid bod yn fwy cydlynol ym maes Polisi Cyffuriau hefyd. Gofynnodd a fydd newidiadau i'r polisi, a allai'r ddwy Lywodraeth drafod beth fydd y newidiadau posibl ac a gaiff cydlyniant cryfach ei feithrin rhwng y ddwy strategaeth gan fod cysylltiadau agos â'r Genhadaeth Strydoedd Mwy Diogel oherwydd bod camddefnyddio cyffuriau yn effeithio'n sylweddol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ac, mewn perthynas â throseddau cyllyll, mae hanner yr holl laddiadau yn y DU yn ymwneud â chyffuriau.

**5.8.** Nododd Ian Barrow ei fod am roi'r wybodaeth ddiweddaraf am rai newidiadau i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Esboniodd y gall fod estyniad i gymhwystra Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref o 6 mis i 12 mis yn

ogystal â rhai newidiadau ynghylch prosesau galw'n ôl i'r carchar er mwyn canolbwyntio mwy ar asesu risg yn hytrach na sefyllfa ddiofyn, gan gydnabod bod goblygiadau i Lywodraeth Cymru a Phlismona, felly bydd yn sicrhau bod pawb yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

## 6. Datblygu Cynllun yr Heddlu a Throseddu a Blaenoriaethau sy'n dod i'r Amlwg

**6.1.** Dywedodd y Comisiynydd Llywelyn fod y gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Esboniodd fod ymgyngoriadau ar y rhan fwyaf o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru wedi cael eu cwblhau, gan nodi bod gofyniad statudol ar bob Comisiynydd i gyhoeddi ei gynlluniau yn ystod ei 12 mis cyntaf yn y swydd, ond mae'n credu y bydd yn cyhoeddi ei gynllun ar ddechrau 2025. Mae'n credu y bydd camau gweithredu a rennir ar lefel Cymru gan fod rhai materion yn berthnasol i Lywodraeth Cymru hefyd, er enghraifft gweithio tuag at Gymru Wrth-hiliol a materion yn ymwneud ag Ymddiriedaeth a Hyder.

**6.2.** Cadarnhaodd y Comisiynydd Wools bwyntiau'r Comisiynydd Llywelyn a nododd fod yr ymgynghoriad yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru wedi cael ei lansio yn ystod haf 2024 a'i fod bellach wedi cau. Dywedodd y cafwyd cyfradd ymateb uchel a chadarnhaol ac y bydd yn anelu at gyhoeddi Cynllun yr Heddlu a Throseddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**6.3.** Dywedodd y Comisiynydd Dunbobbin ei fod ef hefyd wedi cael cyfradd ymateb dda i'r ymgynghoriad, gyda thros 100% o gynnydd o gymharu â'r ymateb a gafwyd yn 2021. Mae'n bwriadu bod yn bresennol ym Mhanel yr Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr 2025 er mwyn cael cymeradwyaeth ar gyfer ei gynllun.

**6.4.** Rhoddodd y Dirprwy Gomisiynydd Thomas ddiweddariad ar ran y Comisiynydd Mudd, gan nodi ei bod hithau hefyd wedi cael cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd. Ychwanegodd fod y Comisiynydd Mudd yn awyddus i ymgysylltu â'r cyhoedd gyda'r nod o wella ymddiriedaeth a hyder. Mae bellach yn symud ymlaen i ail gam yr ymgynghoriad drwy ddechrau cael trafodaethau manylach â chyfres o grwpiau ffocws er mwyn gwirio adborth o waith ymgynghori cymunedol.

## 7. Unrhyw faterion sy'n codi o gyfarfod Plismona yng Nghymru y dylid eu huwchgyfeirio

Dywedodd y Comisiynydd Llywelyn fod y prif faterion wedi cael eu trafod fel rhan o agenda'r cyfarfod.

## 8. Cofnodion y cyfarfod blaenorol (07/03/24)

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cofnodion yn gywir a nodwyd bod camau gweithredu wedi cael eu cwblhau ers y cyfarfod diwethaf ar 7 Mawrth 2024.

## 9. Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw fater arall.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Dydd Llun 16 Rhagfyr 2024 10:00-12:00